



Llywodraeth Cynulliad Cymru  
Welsh Assembly Government

Cymry Ifanc  
Young Wales

[www.cymru.gov.uk](http://www.cymru.gov.uk)

# Casglu a chofnodi data am iaith gyntaf disgyblion

PHOTO REDACTED DUE TO THIRD PARTY RIGHTS OR OTHER LEGAL ISSUES

PHOTO REDACTED DUE TO  
THIRD PARTY RIGHTS OR  
OTHER LEGAL ISSUES

## Canllawiau

Cylchlythyr Llywodraeth Cynulliad Cymru Rhif: 001/2011  
Dyddiad cyhoeddi: Ionawr 2011

# Casglu a chofnodi data am iaith gyntaf disgyblion

- Cynulleidfa** Pob ysgol a gynhelir, awdurdodau lleol.
- Trosolwg** Mae'r canllawiau hyn yn rhoi cyngor newydd ar gasglu a chofnodi data am iaith gyntaf disgyblion.
- Camau i'w cymryd** Casglu a chofnodi data am iaith gyntaf disgyblion ar Systemau Gwybodaeth Reoli Ysgolion yn seiliedig ar y rhestr safonol newydd o gategoriâu o ieithoedd yn Atodiad A.
- Rhagor o wybodaeth** Theresa Davies  
Yr Is-adran Cymorth i Ddysgwyr  
Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau  
Llywodraeth Cynulliad Cymru  
Parc Cathays  
Caerdydd  
CF10 3NQ  
Ffôn: 029 2082 1658  
Ffacs: 029 2082 1044  
e-bost: DCELLS.SupportforLearnersDivision4@cymru.gsi.gov.uk
- Copiau ychwanegol** Gellir cael rhagor o gopiau o'r ddogfen hon yn y cyfeiriad uchod. Mae copiau o'r ddogfen hon ar gael ar wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru [www.cymru.gov.uk/addysgsgiliau](http://www.cymru.gov.uk/addysgsgiliau)
- Dogfennau cysylltiedig** *Y Wlad Sy'n Dysgu: Gweledigaeth ar Waith* (2006)  
*Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion* Cylchlythyr Cynulliad Cenedlaethol Cymru Rhif: 47/2006 (2006)  
*Casglu a Chofnodi Data am Gefndir Ethnig Disgyblion* Cylchlythyr Llywodraeth Cynulliad Cymru Rhif: 006/2009 (2009)



ISBN 978 0 7504 5907 5

© Hawlfraint y Goron 2011

WAG10-10792

F5291011

# Cynnwys

<b>Crynodeb</b>	<b>2</b>
<b>Adran 1: Cyflwyniad a'r cyd-destun polisi</b>	<b>4</b>
<b>Adran 2: Y rhesymau dros gasglu data am iaith gyntaf disgyblion yng Nghymru</b>	<b>6</b>
<b>Adran 3: Manteision casglu data am iaith gyntaf disgyblion</b>	<b>10</b>
<b>Adran 4: Gwybodaeth i ysgolion am gasglu data am iaith gyntaf disgyblion</b>	<b>13</b>
<b>Adran 5: Gwybodaeth i awdurdodau lleol am gasglu data am iaith gyntaf disgyblion</b>	<b>15</b>
<b>Adran 6: Gofyn am wybodaeth gan rieni/gofalwyr a disgyblion</b>	<b>17</b>
<b>Adran 7: Y broses ar gyfer casglu a chofnodi data</b>	<b>21</b>
<b>Atodiad A</b> Rhestr safonol o gategoriâu iaith a chanllawiau	<b>23</b>
<b>Atodiad B</b> Profforma enghreifftiol: Casglu data am iaith gyntaf drwy CYBLD	<b>31</b>
<b>Atodiad C</b> Llythyr enghreifftiol gan ysgolion at rieni/gofalwyr	<b>33</b>

## Crynodeb

O fis Ionawr 2012 ymlaen, bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn dechrau casglu gwybodaeth am iaith gyntaf pob disgybl o oed ysgol gorfodol ym mhob ysgol a gynhelir drwy broses y Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD). Er na fydd yn faes data gorfodol o fewn CYBLD tan fis Ionawr 2012, anogir awdurdodau lleol ac ysgolion i baratoi ar gyfer ei gyflwyno drwy fynd ati'n wirfoddol i gasglu'r data hyn yn ystod blwyddyn academiaidd 2010/2011. Nodir yn y canllawiau hyn y trefniadau sy'n ofynnol i awdurdodau lleol ac ysgolion gasglu'r data hyn.

Diben casglu'r data ychwanegol hyn fydd:-

- (a) deall yn well yr amrywiaeth ieithyddol sy'n bodoli ymhlith poblogaethau ysgolion yng Nghymru; a
- (b) ynghyd â'r wybodaeth arall a gesglir drwy broses CYBLD, bod o gymorth i Lywodraeth Cynulliad Cymru, awdurdodau lleol ac ysgolion wrth iddynt gynllunio a darparu gwasanaethau i gynorthwyo disgyblion ag anghenion ychwanegol o safbwynt datblygiad ieithyddol. Bydd hyn yn sicrhau y caiff pob disgybl bob cyfle i gyflawni ei botensial.

Gan fod darpariaeth addysgol ddwyieithog eisoes yn bod yng Nghymru ar gyfer disgyblion y mae'r Gymraeg a/neu Saesneg yn iaith gyntaf iddynt, prif nod y cynnig hwn i gasglu data yw casglu a choladu gwybodaeth am ieithoedd cyntaf **eraill** disgyblion yng Nghymru. Bydd y data yn ategu'r wybodaeth sydd eisoes yn cael ei chasglu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru drwy CYBLD am gefndiroedd ethnig disgyblion a lefelau caffael y Saesneg ymhlith disgyblion y mae'r Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt.

O 2012, bydd yn ofynnol yn ffurfiol i bob ysgol a gynhelir gyflwyno gwybodaeth am iaith gyntaf pob disgybl. Bydd hyn yn gymwys ar gyfer pob disgybl o oed ysgol gorfodol er mwyn sicrhau cysondeb ar draws Cymru a hefyd er mwyn caniatáu trawsyfeirio. Bydd y blwch iaith yn orfodol ar gyfer pob disgybl sy'n 5 oed ac yn hŷn ond yn ddewisol ar gyfer disgyblion iau.

Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn casglu gwybodaeth am iaith gyntaf ar gyfer pob disgybl drwy broses CYBLD yn unol â'r rhestr safonol o ieithoedd yn Atodiad A. Mae hyn yn cael ei egluro ymhellach yn adran 2.

Bwriad y ddogfen yw cynorthwyo awdurdodau lleol ac ysgolion wrth iddynt fynd ati i gasglu'r set newydd hon o ddata. Mae hefyd yn egluro'r sail bolisi a'r rhesymau dros gasglu data ynghylch iaith gyntaf disgyblion.

## Adran 1: Cyflwyniad a'r cyd-destun polisi

1.1 Ceir yn y ddogfen 'Cymru'n Un'<sup>1</sup> raglen ar gyfer llywodraethu Cymru sy'n cydnabod yn benodol amrywiaeth Cymru yn ddaearyddol, yn gymdeithasol, yn ieithyddol ac yn ddiwylliannol. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwmo i roi'r dechrau gorau mewn bywyd i blant Cymru, a hynny drwy ddarparu addysg o'r radd flaenaf i bob plentyn, beth bynnag ei gefndir cymdeithasol neu lle bynnag y mae'n byw.

1.2 Cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ganllawiau cyffredinol yn y ddogfen *Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion* ym mis Tachwedd 2006. Dylai'r canllawiau ar gyfer casglu data am iaith gyntaf disgyblion gael eu hystyried yn y cyd-destun hwn.

1.3 Mae hyrwyddo cydraddoldeb hiliol ac amrywiaeth ddiwylliannol yn elfen y rhoddir sylw parhaus iddi ym maes addysg ac yn un sy'n datblygu o hyd. Bydd casglu data am iaith gyntaf disgyblion o oed ysgol gorfodol ym mhob ysgol a gynhelir, ynghyd â gwybodaeth arall a gesglir drwy broses CYBLD, yn cyfrannu'n fawr at gynllunio a gweithredu strategaethau sy'n hyrwyddo cydraddoldeb, sy'n parchu amrywiaeth ac sy'n cefnogi cynhwysiant addysgol pob disgybl.

1.4 Bydd hefyd yn helpu Llywodraeth Cynulliad Cymru, awdurdodau lleol ac ysgolion i ddeall yr effaith y mae meddu ar y Saesneg fel iaith ychwanegol yn ei chael ar gyrhaeddiad disgyblion a hefyd y ffordd orau o fynd ati i ddarparu ar gyfer disgyblion a chanddynt anghenion ychwanegol o ran datblygiad ieithyddol.

### **Casglu data am iaith gyntaf disgyblion**

1.5 Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru eisoes yn gofyn i ysgolion gyflwyno gwybodaeth am gefndir ethnig eu disgyblion. Mae rhai awdurdodau lleol ac ysgolion eisoes yn casglu data am iaith gyntaf disgyblion gan ddefnyddio amryw o systemau categorïau iaith.

1.6 Anogir pob awdurdod lleol ac ysgol yn awr i fynd ati'n wirfoddol i ddechrau casglu data am iaith gyntaf er mwyn paratoi ar gyfer ei gyflwyno yn rhan o CYBLD yn 2012. Mae casglu data am iaith gyntaf yn dilyn cyflwyno casglu data am Saesneg fel iaith Ychwanegol ar lefel disgyblion yn rhan o broses CYBLD yn 2009

---

<sup>1</sup> Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2007

a chyflwyno categorïau diwygiedig ac estynedig ar gyfer cefndir ethnig ar gyfer CYBLD 2010. Bydd y rhestr safonol o ieithoedd yn Atodiad A ar gael ar feddalwedd System Gwybodaeth Reoli (MIS) ysgolion yn ystod blwyddyn academaidd 2010/11; dylai ysgolion gysylltu â'u gwasanaeth cymorth MIS er mwyn cael gwybodaeth ynghylch pa fersiwn o'r feddalwedd a fydd yn ei chynnwys.

1.7 Mae rhai materion penodol yn codi o ran casglu data am iaith oherwydd natur ddwyieithog Cymru ac am nad yw'r sefyllfa mor syml ag y byddai mewn cyd-destun uniaith. Caiff y cymhlethdodau hyn eu cydnabod yn llawn a'u hegluro ymhellach yn **adran 2**.

1.8 Ceir yn y canllawiau y trefniadau i gasglu data am iaith gyntaf er mwyn darparu data sy'n gywir, yn gyson ac yn ddibynadwy.

## Diogelu data

1.9 Nid ystyrir bod iaith gyntaf unigolyn ynddo'i hun yn 'ddata personol sensitif' o dan adran 2 Deddf Diogelu Data 1998. Fodd bynnag, o ystyried y cyswllt posibl rhwng data am iaith a data am ethnigrwydd at ddibenion dadansoddi a rhannu adnoddau, **taer argymhellir** bod y data yn cael eu trin fel data personol sensitif.

1.10 Dylai pawb sydd ynghlwm wrth y gwaith o drin data personol fod yn ymwybodol o'u dyletswyddau a'u cyfrifoldebau o dan y Ddeddf Diogelu Data. Mae canllawiau ar gael ar wefan y Comisiynydd Gwybodaeth, sef [www.informationcommissioner.gov.uk](http://www.informationcommissioner.gov.uk). Gellir gweld rhagor o wybodaeth am reoli data ynghylch disgyblion ar wefan [www.wales.gov.uk/ims](http://www.wales.gov.uk/ims).

## Adran 2: Y rhesymau dros gasglu data am iaith gyntaf disgyblion yng Nghymru

### Y Sail Resymegol

2.1 Cydnabyddir bod yr arfer (cynhwysol) gorau ym maes iaith yn seiliedig ar wybodaeth o repertoire ieithyddol pob disgybl. Dylai data am iaith gyntaf ynghyd â data am wybodaeth arall a gesglir drwy'r broses CYBLD ganiatáu i gymorth ac adnoddau iaith gael eu targedu'n fwy effeithiol ar gyfer pob disgybl o oed ysgol gorfodol ym mhob lleoliad a gynhelir. Gall y data gael eu defnyddio hefyd at ddibenion monitro cenedlaethol a lleol.

2.2 Fodd bynnag, mae system addysg ddwyieithog eisoes yn bodoli yng Nghymru a bydd pob plentyn a pherson ifanc yn dysgu Cymraeg a Saesneg. Mae'r system addysg hefyd yn cynnig darpariaeth i ddisgyblion dderbyn eu haddysg yn bennaf drwy'r Gymraeg neu'r Saesneg. Yn ogystal â hynny, mae data eisoes yn cael eu casglu drwy CYBLD ynghylch rhuglder a'r defnydd a wneir o'r Gymraeg. Am y rhesymau hyn, cynigir bod 'Cymraeg a/neu Saesneg' yn cael ei gynnig fel un dewis er mwyn cofnodi'r iaith gyntaf ar gyfer data CYBLD, ac nid fel dau ddewis ar wahân.

2.3 Dyma ddiffiniad syml o iaith 'gyntaf' yng nghyd-destun y canllawiau hyn:

**'Yr iaith a ddysgodd y plentyn gyntaf yn blentyn bach ac y bydd o bosibl yn parhau i gael ei drwytho ynddi yn y cartref neu yn y gymuned'**

(Mae'n bosibl y bydd rhai awdurdodau lleol/ysgolion yn casglu'r data hyn eisoes fel 'iaith y cartref').

Dyma rai enghreifftiau:

Mae teulu Somaliaidd wedi dod i Gymru i fyw. Nid yw'r rhieni yn siarad fawr ddim Cymraeg na Saesneg ac iaith y cartref yw Somalieg. Mae'r plant yn dysgu Cymraeg a Saesneg yn yr ysgol ac yn derbyn cymorth gyda'r Saesneg fel iaith ychwanegol.

**Iaith gyntaf y disgyblion hyn yw Somalieg.**



Mae mam wedi symud o Loegr i Gymru. Mae'r ddau blentyn yn mynychu ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg. Saesneg yw iaith y cartref.

**iaith gyntaf y disgyblion hyn yw Cymraeg a/neu Saesneg.**

Mae rhieni sy'n siarad Cymraeg yn defnyddio'r Gymraeg yn unig yn y cartref. Mae eu plant yn mynychu ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg ac ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg.

**iaith gyntaf y disgyblion hyn yw Cymraeg a/neu Saesneg.**

2.4 Lle bo plentyn wedi dysgu a defnyddio iaith arall yn ystod ei flynyddoedd cynnar yn ogystal â'r Gymraeg a/neu Saesneg, byddai'r iaith arall yn cael ei disgrifio fel yr iaith gyntaf beth bynnag y bo hyfedredd y disgybl mewn 'Cymraeg a/neu Saesneg'.

Mae plentyn yn cael ei eni yng Nghymru i deulu Pwylaidd sydd wedi symud i Gymru i fyw. Yr iaith gyntaf y dysgodd y plentyn oedd Pwyleg a Phwyleg yw'r iaith sy'n cael ei defnyddio o hyd yn y cartref er bod y rhieni yn dysgu Cymraeg ac weithiau'n ymarfer y Gymraeg yn y cartref gyda'u plentyn. Mae'r plentyn yn mynychu ysgol Gymraeg ei chyfrwng ac mae bellach yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg. Cymraeg yw prif iaith y plentyn yn yr ysgol ac yn y gymuned ehangach.

**iaith gyntaf y plentyn hwn fyddai Pwyleg**

2.5 Mae rhai plant a fu'n hollol fyddar ers eu geni yn defnyddio iaith Arwyddion Prydain (BSL) fel eu prif gyfrwng cyfathrebu. Yn achos y plant hyn, ni ddylid nodi iaith y cartref fel eu hiaith gyntaf (oni bai mai BSL yw honno hefyd) am nad honno oedd yr iaith gyntaf iddynt ei dysgu yn blant bach. O dan amgylchiadau o'r fath felly, dylid cofnodi BSL fel yr iaith gyntaf lle bydd y rhiant neu'r disgybl yn nodi mai honno yw'r iaith gyntaf (gweler adran 6). Gall iaith y cartref fod yn iaith Gyntaf Luosog (gweler adran 7).

Gall mathau eraill o arwyddo gael eu defnyddio hefyd i ategu cyfathrebu i blant ag ystod o anghenion addysgol arbennig. Mae'r canllawiau hyn yn cyfeirio at blant sy'n fyddar yn defnyddio BSL fel eu prif gyfrwng ieithyddol yn unig.

2.6 Ar hyn o bryd, nid oes gwybodaeth gynhwysfawr a chyson ar gael yn genedlaethol am blant a phobl ifanc yng Nghymru nad yw'r Gymraeg a/neu'r Saesneg yn iaith gyntaf iddynt. Mae hyn yn cyfyngu ar y gallu i gynllunio a darparu cymorth addas lle bynnag y bo ei angen ar gyfer disgyblion ag anghenion ychwanegol o ran datblygiad ieithyddol. Bydd y set newydd o ddata felly yn galluogi ysgolion, awdurdodau lleol a Llywodraeth y Cynulliad i ddeall yn well yr holl ieithoedd (gan gynnwys iaith Arwyddion Prydain) sy'n cael eu siarad mewn cymunedau yng Nghymru. Bydd hyn wedyn ynghyd â gwybodaeth arall a gesglir drwy'r broses CYBLD yn fodd i lywio'r gwaith o gynllunio gwasanaethau er budd pob disgybl.

Mae posibilrwydd i'r data a gesglir gael eu defnyddio i lywio'r gwaith o gynllunio gwasanaethau cymunedol ehangach, gan gynnwys cymorth gydag iaith i deuluoedd lle nad yw'r Gymraeg a/neu'r Saesneg yn iaith gyntaf iddynt.

## **Y rhesymau y dylai polisi addysg gydnabod amrywiaeth ieithyddol disgyblion**

2.7 Bydd data ynghylch iaith gyntaf disgyblion yn ddefnyddiol iawn wrth:

- fonitro presenoldeb a chyrhaeddiad;
- datblygu strategaethau ac arferion sy'n cefnogi anghenion dysgu penodol disgyblion unigol; a
- thargedu adnoddau a chymorth yn lleol ac yn genedlaethol.

Mae iaith yn rhan annatod o hunaniaeth pob plentyn. Lle bydd ysgolion yn cydnabod amrywiaeth ieithyddol disgyblion, gall hyn wneud cyfraniad cadarnhaol at gydlyniant cymunedol a dwyn ysgolion yn nes at y cymunedau a wasanaethant. Mae casglu data am iaith yn rhoi neges glir i blant a rhieni bod eu hunaniaeth yn cael ei chydabod a'i pharchu o fewn cymuned yr ysgol.

2.8 Mae canllawiau clir yn y cwricwlwm cenedlaethol newydd yn tynnu sylw at bwysigrwydd annog defnyddio iaith y cartref a dwyieithrwydd ym mhob iaith ar gyfer lles academaidd a phersonol plant a phobl ifanc.

2.9 Gall cydnabod a pharchu amrywiaeth ieithyddol gyfrannu hefyd at greu amgylchedd sy'n croesawu amrywiaeth ieithyddol. Bydd hyn o fantais i bob plentyn drwy greu amodau sy'n annog mwy o ymwybyddiaeth o iaith a bod yn agored i wahanol ddiwylliannau. Yn ei dro, bydd hyn yn hwyluso'r broses o ddysgu iaith i bawb.

2.10 Am y rhesymau hyn felly mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn bwriadu ffurfioli'r trefniadau ar gyfer casglu data am iaith gyntaf disgyblion yn hytrach na'i adael i awdurdodau lleol unigol neu ysgolion unigol benderfynu yn ei gylch.

### **Dadansoddi a monitro data ynghylch cyrhaeddiad disgyblion ar sail eu hethnigrwydd a'u hiaith gyntaf**

2.11 Bydd casglu data am iaith gyntaf disgyblion yn ymestyn ystod y data a ddefnyddir wrth ddadansoddi cyrhaeddiad disgyblion yn lleol ac yn genedlaethol.

2.12 Bydd y data am iaith gyntaf disgyblion yn ategu'r data ynghylch ethnigrwydd a Saesneg fel iaith ychwanegol a bydd yn datgelu'r gydberthynas gymhleth sydd weithiau'n bodoli rhwng cefndir ethnig ac iaith. Bydd casglu data am iaith gyntaf hefyd yn caniatáu cyd-berthnasu data am iaith gyntaf â data yn gysylltiedig â chymau Saesneg fel iaith ychwanegol er mwyn monitro cynnydd addysgol.

2.13 Bydd cael data o ansawdd da am iaith disgyblion yn golygu y bydd modd dyrannu a thargedu'n fwy effeithiol adnoddau i roi cymorth tuag at iaith, gan gynnwys cymorth amlieithog a darpariaeth dehongli a chyfieithu.

## Adran 3: Manteision casglu data am iaith gyntaf disgyblion

3.1 Gall data am iaith gyntaf disgyblion, ynghyd â data am wybodaeth arall a gesglir drwy'r broses CYBLD, gyfrannu llawer at gynllunio a gweithredu strategaethau i hyrwyddo cydraddoldeb, parchu amrywiaeth a chefnogi cynhwysiant addysgol pob disgybl, yn enwedig y rheini sy'n siarad ieithoedd heblaw am y Gymraeg a/neu Saesneg. Disgrifir isod y dull gweithredu a awgrymir yn "Including All Learners" mewn perthynas â'r cwricwlwm cenedlaethol newydd:-

"Every learner should develop a sense of personal and cultural identity that is receptive and respectful towards others. Learning providers should plan in all subjects to develop the knowledge and understanding, skills, values and attitudes which will enable learners to participate in our multi-ethnic society in Wales. They should develop approaches which support the ethnic/cultural identities of all learners and reflect a range of perspectives, to engage learners and prepare them for life as global citizens".

3.2 Mae swyddogaeth hollbwysig i iaith wrth ddiffinio hunaniaeth bersonol plant ac oedolion. Yn achos plentyn, gwelir datblygu'r berthynas gyntaf â phobl, ei allu i ddysgu a'r broses o'i drwytho yng ngwerthoedd cymdeithasol a diwylliannol y gymdeithas yn digwydd drwy'r iaith neu'r ieithoedd a gafodd yn ystod y blynyddoedd cynnar. Gall data o ansawdd da am iaith disgyblion gynorthwyo ysgolion felly i ddeall yn well etifeddiaeth ieithyddol a diwylliannol eu disgyblion a'u cymunedau lleol. Mae casglu'r wybodaeth hefyd yn rhoi neges glir i blant a rhieni bod eu hunaniaeth yn cael ei chydabod a'i pharchu o fewn cymuned yr ysgol.

3.3 Mae plant a phobl ifanc yn gallu elwa o gydnabod, parchu ac adeiladu ar etifeddiaeth ieithyddol plant o bob cymuned. Gall cydnabod a pharchu amrywiaeth ieithyddol gyfrannu hefyd at greu amgylchedd lle rhoddir ystyriaeth i wahanol ieithoedd. Bydd hyn o fudd i bob dysgwr drwy greu'r amodau a fydd yn annog mwy o ymwybyddiaeth o iaith a bod yn agored i wahanol ddiwylliannau, gyda hynny yn ei dro yn arwain at hwyluso'r broses o ddysgu iaith i bawb.

3.4 O gysylltu'r data am iaith gyntaf disgyblion â data eraill yn CYBLD, gwelir gwelliannau yn yr wybodaeth ystadegol a fydd ar gael ar gyfer ysgolion, awdurdodau lleol a Llywodraeth Cynulliad Cymru. Fodd bynnag, ni fydd y data am iaith yn golygu y gellir adnabod disgyblion unigol yn gyhoeddus. Caiff unrhyw ddata eu rhyddhau yn unol â'r Cod Ymarfer Ystadegau Cenedlaethol.

Ar lefel **ysgol** bydd y data:

- yn helpu i nodweddu amrywiaeth ieithyddol yr ysgol;
- yn fodd i dargedu cymorth ieithyddol yn fwy effeithiol wrth neilltuo cynorthwywyr addysgu iaith, dehonglwyr, gweithwyr cyswllt rhwng y cartref a'r ysgol ac ati;
- yn targedu cyrsiau addysgu iaith yn y gymuned lle bo'n berthnasol;
- yn cynorthwyo ysgolion o bosibl i ddynodi iaith/ieithoedd er mwyn cyfieithu gohebiaeth i rieni;
- yn helpu ysgolion i wybod pa iaith y dylid annog disgyblion i'w defnyddio yn yr ysgol;
- yn cynorthwyo ysgolion i ddyfeisio strategaethau addysgu a dysgu a fydd yn ymateb i anghenion dysgu amrywiol y disgyblion;
- yn helpu ysgolion i roi i bob plentyn y cyfle i gyflawni ei potensial;
- yn rhoi gwell gwybodaeth i ysgolion am ddisgyblion sy'n dod atynt o ysgolion eraill.

Ar lefel **awdurdod lleol** bydd y data:

- yn dynodi amrywiadau rhanbarthol o ran amrywiaeth ieithyddol;
- yn fodd i dargedu cymorth ieithyddol yn fwy effeithiol wrth neilltuo cynorthwywyr addysgu iaith, dehonglwyr, gweithwyr cyswllt rhwng y cartref a'r ysgol a gweithwyr cymunedol; ac
- yn cefnogi darparu cyrsiau addysgu iaith yn y gymuned.

Ar lefel **Llywodraeth Cynulliad Cymru** bydd y data am iaith gyntaf yn ffynhonnell werthfawr o wybodaeth ystadegol am y canlynol:-

- nifer yr ieithoedd sy'n cael eu siarad yng Nghymru;
- nifer y dysgwyr y mae'r Gymraeg a/neu'r Saesneg yn iaith gyntaf iddynt;
- nifer y dysgwyr yng Nghymru sydd ag iaith arall (gan gynnwys BSL) yn iaith gyntaf iddynt.

3.5 O gysylltu data am iaith disgyblion â data eraill yn CYBLD, bydd manteision cael data o ansawdd da yn cynnwys:

- y gallu i ddefnyddio gwybodaeth am iaith ochr yn ochr â data am ethnigrwydd er mwyn cael gwell gwybodaeth am bob disgybl;
- sicrhau gwelliannau o ran yr wybodaeth sydd ar gael ar lefel ysgol, ar lefel awdurdodau lleol ac ar lefel Llywodraeth Cynulliad Cymru, am gyrhaeddiad a chynnydd disgyblion a chanddynt wahanol anghenion o ran iaith; a'r
- gallu i ddyrannu a thargedu'n fwy effeithiol adnoddau a fydd yn rhoi cymorth i hyrwyddo iaith.

3.6 Bydd data o'r fath hefyd yn gymorth i Lywodraeth Cynulliad Cymru a'i phartneriaid, megis Estyn, drwy gyfrannu at bolisi a strategaeth genedlaethol a thrwy werthuso'r polisiau a'r strategaethau cenedlaethol hynny i sicrhau bod adnoddau canolog yn cael eu targedu'n effeithiol.

## Adran 4: Gwybodaeth i ysgolion am gasglu data am iaith gyntaf disgyblion

### 4.1 Tasgau rheoli ar gyfer ysgolion:

Bydd angen i bob ysgol:

- Ddynodi rheolwr a fydd yn gyfrifol am gymryd y rhan arweiniol ar oruchwylio'r broses o gasglu data am iaith;
- Gwahaniaethu rhwng cyfrifoldebau'r staff sydd ynghlwm wrth y gwaith o fewnbynnu'r data (staff gweinyddol) a staff sy'n defnyddio eu gwybodaeth arbenigol yn rhan o'r broses o gasglu data, er enghraifft, staff gwasanaethau cyrhaeddiad lleiafrifoedd ethnig, a phennu tasgau fel y bo'n berthnasol;
- Sicrhau bod cymorth addas ar gael i bob aelod o'r staff wrth gasglu data a'u mewnbynnu;
- Sicrhau bod y broses o gasglu data yn cael ei rheoli mewn modd sensitif, gan ystyried y cyngor sydd yng nghanllawiau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gasglu data am iaith; a
- Phennu rhestr gyfyngedig o ieithoedd cyffredin o'r rhestr safonol gyflawn o ieithoedd i'w defnyddio wrth gasglu gwybodaeth gan ddisgyblion a rhieni/gofalwyr (naill ai'n annibynnol neu'n seiliedig ar wybodaeth gan yr awdurdod addysg lleol). Dylai'r rhestr safonol o ieithoedd yn Atodiad A fod ar gael i rieni ddewis ohoni os byddant yn dewis gwneud hynny.

### 4.2 Tasgau gweinyddol ar gyfer ysgolion:

- Anogir pob ysgol i fynd ati'n wirfoddol i ddechrau casglu data am iaith gyntaf yn awr ond rhaid i **bob** ysgol sicrhau bod pob disgybl yn yr ysgol uwchradd neu rieni/gofalwyr disgyblion mewn ysgolion cynradd yn cael eu gwahodd i ddarparu gwybodaeth am iaith gyntaf cyn cynnal CYBLD ym mis Ionawr 2012; a
- Chofnodi data am iaith a gasglwyd gan ddisgyblion neu rieni yn eu Systemau Rheoli Gwybodaeth yn rhan o'u cofnodion disgyblion safonol. Bydd angen i ysgolion gael set lawn o ddata wedi'u cofnodi mewn da bryd ar gyfer cynnal CYBLD ym mis Ionawr 2012.

#### **4.3 Casglu data am ddisgyblion sydd eisoes ar y gofrestr lle bo data am iaith eisoes yn cael eu casglu**

- Ar gyfer disgyblion sydd eisoes ar y gofrestr, bydd angen i ysgolion yn awr ofyn am ddata am iaith gan y disgybl ei hun neu gan rieni yn unol â'r rhestr safonol o ieithoedd yn Atodiad A.
- Mae'n bosibl y bydd ysgolion am fynd ati o hyd i gyfuno'r broses o gasglu gwybodaeth am iaith ar gyfer disgyblion sydd ar y gofrestr eisoes â'u hymarferiad blynyddol o wirio data.
- Unwaith y bydd y data wedi'u casglu a'u cofnodi bydd yn rhan o'r Ffeil Drosoglwyddo Gyffredin a byddant yn cael eu trosglwyddo gyda'r disgybl os bydd yn symud. Bydd hyn yn lleihau'r pwysau gweinyddol. Yn unol ag arferion da a dulliau da o reoli data, mae'n bosibl y bydd ysgolion am gynnwys data sydd ganddynt am iaith eu disgyblion yn eu hymarferiad blynyddol o wirio data gan roi'r cyfle i rieni a disgyblion gywiro neu ddiweddarau'r wybodaeth sydd ar glawr ar eu cyfer.

#### **4.4 Casglu data am iaith am y tro cyntaf (disgyblion newydd)**

- Lle nad yw'r prosesau safonol cyfredol ar gyfer derbyn disgyblion yn cynnwys casglu data am iaith disgyblion, a lle bo disgyblion newydd wedi'u cofrestru yn yr ysgol am y tro cyntaf, bydd angen i ysgolion gasglu gwybodaeth am iaith gyntaf y disgyblion hynny. Dylai hyn ddigwydd ar ôl i'r rhieni gael cadarnhad i ddweud y neilltuwyd lle ar gyfer eu plentyn yn yr ysgol. Gorau oll os gall hyn gael ei wneud ar yr un adeg ag y cesglir mathau eraill o ddata personol. Dylai gael ei wneud, lle bo modd, yn ystod cyfarfod i'w drefnu'n fuan gyda rhieni disgyblion newydd.

4.5 O dymor yr hydref 2010 ymlaen, dylai ysgolion gasglu gwybodaeth am eu disgyblion newydd ar sail y rhestr ieithoedd yn Atodiad A. Gall awdurdodau lleol roi cymorth i ysgolion fodd bynnag drwy roi rhestr fyrrach o ieithoedd y gwyddant eu bod yn cael eu siarad o fewn yr awdurdod (yn seiliedig ar y rhestr safonol o ieithoedd yn Atodiad A) er mwyn eu cynnwys yn y ffurflen casglu data.



## Adran 5: Gwybodaeth i awdurdodau lleol am gasglu data am iaith gyntaf disgyblion

5.1 Bydd angen i awdurdodau lleol roi rhywfaint o gymorth a chanllawiau i ysgolion er mwyn eu paratoi ar gyfer casglu data am iaith gyntaf. Mae'r trefniadau cyfredol mewn awdurdodau lleol yn amrywio'n fawr mewn perthynas â'r casgliad presennol o ddata am iaith, a bydd natur y cymorth y bydd ei angen ar ysgolion gan eu hawdurdodau lleol a maint y cymorth y bydd ei angen arnynt yn dibynnu ar y trefniadau presennol.

5.2 Mewn nifer o awdurdodau lleol, bydd ysgolion eisoes yn casglu ac yn cofnodi gwybodaeth am iaith ar gyfer eu disgyblion at y dibenion a ddisgrifiwyd yn gynharach er na fydd hyn yn unol â'r rhestr safonol yn Atodiad A.

5.3 Mewn rhai awdurdodau lleol, ni fu ysgolion yn casglu gwybodaeth am iaith ar gyfer eu disgyblion neu mae'n bosibl y buont yn defnyddio rhestr gyfyngedig o gategoriâu iaith. Lle bo hyn yn digwydd, mae'n bosibl y bydd angen cryn dipyn o gymorth ar ysgolion gan staff rheoli data'r awdurdod addysg lleol yn ogystal ag arbenigwyr iaith a staff technegol.

5.4 Mae'n debyg y bydd angen cymryd y camau canlynol gan bob awdurdod lleol:

### **Gwaith paratoadol er mwyn pennu'r categorïau iaith**

- Bydd y rhestr safonol gyflawn o gategoriâu iaith a welir yn Atodiad A ar gael i bob ysgol yn y 'look-up list' yn eu system gwybodaeth reoli (MIS) yn ystod blwyddyn academaidd 2010/11. Bydd angen i bob awdurdod addysg lleol ystyried y ffordd orau o drosglwyddo'r rhestr gyflawn o ieithoedd a sut i helpu ysgolion i'w deall a'i defnyddio. Ceir canllawiau manylach ar ddefnyddio'r rhestr safonol o ieithoedd yn Atodiad A.
- Mae'r rhestr yn un gynhwysfawr ac mae angen i nifer o awdurdodau lleol ystyried cynorthwyo ysgolion hefyd drwy roi rhestr fyrrach o ieithoedd ar y ffurflen casglu data gan adlewyrchu'r ieithoedd y gwyddant eu bod yn cael eu siarad o fewn yr awdurdod. Ni ddylai rhieni a disgyblion, fodd bynnag, gael eu hatal rhag gofyn am gael cofnodi iaith nad yw'n ymddangos ar y rhestr fyrrach.
- Mae nifer yr ieithoedd sy'n cael eu cynrychioli mewn awdurdodau lleol ac mewn ysgolion unigol yn amrywio'n fawr ledled Cymru. Mae'r trefniadau sy'n bodoli ar hyn o bryd i gasglu data am iaith yn amrywio'n fawr hefyd. Wrth gynllunio felly bydd

angen ystyried y materion hyn o ran y paratodau ar gyfer casglu data am iaith gyntaf yn rhan o'r broses CYBLD ac wrth fynd ati i'w casglu.

### **Yn ystod 2010 (os yw'r data yn cael eu casglu yn wirfoddol) dylai awdurdodau lleol:**

- Roi cyngor a chymorth i ysgolion ynghylch casglu a chofnodi data am iaith gyntaf disgyblion yn unol â gofynion CYBLD 2012. Mater i bob awdurdod lleol fydd gweld beth yw'r anghenion yn lleol yn hyn o beth a chynnig hyfforddiant priodol. Gall hyn gynnwys yr angen i wneud ysgolion yn fwy ymwybodol o gydraddoldeb hiliol, amrywiaeth ethnig a diwylliannol a materion penodol sy'n effeithio ar ffoaduriaid a cheiswyr lloches.
- Sicrhau bod trefniadau yn cael eu sefydlu a fydd yn sicrhau bod y data hyn yn cael eu trosglwyddo rhwng ysgolion pan fydd disgyblion yn symud ysgol.
- Lle bo ysgolion eisoes yn casglu data am iaith gyntaf, sicrhau eu bod yn adolygu unrhyw restr a chodau y maent eisoes yn eu defnyddio mewn perthynas ag ieithoedd a'u cymharu â'r rhestr safonol newydd yn Atodiad A ac yna ail-goladu'r data am iaith ar gyfer pob disgybl sydd eisoes ar gofrestr yr ysgol.
- Mae'n bosibl y bydd rhai ysgolion eisoes yn gwirio data yn rheolaidd bob blwyddyn gyda rhieni yn ystod tymor yr hydref. Byddai hyn yn gyfle da i fynd ati i gasglu data newydd neu ddata diwygiedig gan rieni neu ddisgyblion.

### **Yn orfodol ym mis Ionawr 2012:**

- Sicrhau bod ysgolion yn casglu data am iaith disgyblion yn ystod Tymor yr Hydref 2011 a sicrhau bod pob ysgol wedi cofnodi data am iaith gyntaf pob disgybl sydd ar gofrestr yr ysgol mewn da bryd ar gyfer cynnal CYBLD fis Ionawr 2012. Awgrymwn eich bod yn cwblhau'r gwaith erbyn 1 Tachwedd 2011 ar gyfer ymarferiad CYBLD Ionawr 2012.

### **Gwaith a fydd yn parhau**

- Bydd angen i awdurdodau lleol barhau i adolygu'r rhestr ieithoedd er mwyn sicrhau bod pob iaith gyntaf sy'n bodoli yn yr awdurdod yn cael ei chynrychioli.

## Adran 6: Gofyn am wybodaeth gan rieni/gofalwyr a disgyblion

### **Rôl disgyblion a rhieni/gofalwyr wrth bennu iaith gyntaf**

Wrth weithio gyda disgyblion a rhieni/gofalwyr, cymerir yn ganiataol y bydd awdurdodau lleol ac ysgolion wedi nodi'r ieithoedd y gwyddant eu bod yn cael eu siarad o fewn yr awdurdod o'r rhestr safonol gyflawn. Ni ddylai disgyblion neu rieni/gofalwyr gael y rhestr gyflawn o dan unrhyw amgylchiadau oni bai bod y rhiant/gofalwr wedi gofyn amdani.

### **Disgyblion rhwng 5 a 12 oed**

6.1 Argymhellir y dylai'r rheini sydd â chyfrifoldeb rhieni benderfynu beth yw iaith gyntaf disgyblion mewn ysgolion cynradd.

### **Disgyblion dros 12 oed**

6.2 Rhoddodd y Comisiynydd Gwybodaeth gyngor bod disgyblion 12 i 15 oed yn ddigon aeddfed i benderfynu drostynt eu hunain beth yw eu hiaith gyntaf. Argymhellir mai'r ffordd orau fyddai i benderfyniadau ynghylch iaith gyntaf disgyblion rhwng 12 a 15 oed gael eu gwneud gyda chefnogaeth a gwybodaeth rhiant (rhieni) neu'r rheini sydd â chyfrifoldeb rhieni, a hynny mewn cyd-destun teuluol.

### **Disgyblion dros 16 oed**

6.3 Cyngor y Comisiynydd Gwybodaeth yw y dylai disgyblion 16 oed neu'n hŷn wneud eu penderfyniadau eu hunain.

### **Plant sy'n Derbyn Gofal**

6.4 Lle bo disgybl rhwng 12 a 15 oed yn derbyn gofal gan awdurdod lleol, dylid derbyn penderfyniad y disgybl yn hytrach na phenderfyniad yr awdurdod neu'r gofalwr a ddynodwyd gan yr awdurdod.

## **Anghenion Addysgol Arbennig**

6.5 Lle bo gan blant a phobl ifanc anghenion addysgol arbennig gall fod yn fwy priodol defnyddio eu hoedran gweithredol yn hytrach na'u hoedran cronolegol wrth benderfynu a ddylai disgybl neu riant/gofalwr wneud y penderfyniad ynghylch yr iaith gyntaf.

## **Rhoi cymorth i ddisgyblion a rhieni wrth iddynt roi gwybodaeth am iaith**

6.6 Yn y rhan fwyaf o achosion, dylai'r broses o gasglu gwybodaeth am iaith fod yn broses gymharol syml, yn arbennig lle bo ysgolion yn mynd ati'n egnïol i hyrwyddo agweddau cadarnhaol tuag at amlieithrwydd ac amrywiaeth ieithyddol. Mae'n bosibl fodd bynnag y bydd rhai disgyblion neu rieni yn amharod i roi'r wybodaeth y gofynnir amdani neu efallai y bydd eu hatebion yn anghyflawn. Efallai na fydd disgyblion neu rieni o gefndiroedd ieithoedd lleiafrifol yn gallu darllen/deall y cais am wybodaeth neu efallai y byddant yn amharod i ymateb os credant:

- y gallai'r ysgol ffafrio'r rhai sy'n ymateb drwy ddisgrifio eu hunain fel siaradwyr Cymraeg a/neu Saesneg, yn arbennig lle eu bod yn y mwyafrif;
- na fyddai'r ysgol o bosibl yn gwybod am enw eu hiaith; a/neu os byddant yn tybio bod statws cymharol isel i'w hiaith ymhlith y rhai sy'n gofyn am yr wybodaeth.

Mae'n bosibl y bydd teuluoedd o ffoaduriaid a cheiswyr lloches yn arbennig o wylriadwrs ynghylch ceisiadau sy'n ymwneud ag iaith gyntaf oherwydd eu hanes arbennig a'u statws cyfredol.

6.7 O dan amgylchiadau o'r fath, efallai y bydd angen cymorth ar ddisgyblion neu rieni er mwyn rhoi'r wybodaeth ofynnol. Er enghraifft, gallai aelod o'r staff sy'n adnabod y plentyn yn dda neu aelod o'r staff sy'n arbenigwr ym maes Saesneg fel iaith Ychwanegol gynorthwyo gydag achosion unigol.

Mae'n bosibl y bydd rhai ysgolion/awdurdodau lleol yn gallu darparu cyfieithwyr neu wybodaeth wedi'i chyfieithu mewn rhai ieithoedd.

**6.8 Ni ddylid rhoi pwysau ar ddisgyblion neu rhieni sy'n dal i fod yn ansicr neu'n amharod i roi gwybodaeth** er iddynt gael eu hannog i wneud hynny. O dan amgylchiadau o'r fath dylai'r ysgol ystyried:

- a allai'r disgyblion neu'r rhieni gael eu gwahodd i roi'r wybodaeth yn ddiweddarach; ac
- yn achos disgyblion newydd, gellir cael hyd i ddata cywir yn haws petai'r disgybl yn cael amser yn gyntaf i ymgylfarwyddo â'r ysgol.

### **Priodoli iaith**

6.9 Mewn rhai achosion lle na fydd y disgybl neu'r rhiant yn darparu gwybodaeth yn y lle cyntaf, gall yr ysgol briodoli iaith ar gyfer y disgybl os ydynt yn hyderus y gallant seilio eu penderfyniad ar wybodaeth ddilys. **O dan amgylchiadau o'r fath rhaid gwahodd y disgybl neu'r rhiant i gadarnhau'r penderfyniad.** Rhaid i'r ysgol nodi'r penderfyniad yn y lle priodol ar gofnod y disgybl lle bo'r ysgol wedi priodoli iaith gyntaf ar gyfer y disgybl dan sylw.

### **Derbyn ymatebion**

6.10 Rhaid i ysgolion dderbyn yr ymatebion a ddarperir gan y disgyblion neu'r rhieni. Dylai data am iaith gyntaf gael eu hystyried yn ddata personol eu natur gogyfer â'r disgybl dan sylw a rhaid i benderfyniadau unigol gael eu parchu.

Mae rhai ffactorau sensitif ynghlwm wrth rai ymatebion posibl. Er enghraifft, gallai rhieni/gofalwyr ddewis iaith y tybir ei bod o statws uwch yn hytrach na gwir iaith gyntaf y plentyn. Derbynnir y gall hyn effeithio ar gywirdeb y data a gesglir.

### **Yr hawl i wrthod rhoi data**

6.11 Mae gan bob disgybl neu riant yr hawl i wrthod rhoi'r data hyn. Os gwnaeth y disgybl neu'r rhiant nodi'n bwrpasol eu bod yn gwrthod rhoi gwybodaeth o'r fath yna rhaid nodi'n ffurfiol eu bod wedi gwrthod ac ni chaniateir priodoli iaith gyntaf ar gyfer y disgybl hwnnw.

## **Mynediad gan ddisgyblion a rhieni at ddata personol sensitif a gedwir yn yr ysgol**

6.12 Mae hawl gan ddisgyblion neu eu rhieni weld ffeiliau personol y disgyblion, gan gynnwys y data am iaith gyntaf y disgybl, a gedwir gan yr ysgol am yr unigolyn, fel y nodwyd yn yr Hysbysiad Preifatrwydd a gyhoeddwyd gan yr ysgol sy'n rhoi cyngor ar yr hyn mae'r ysgol, yr awdurdod lleol a Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud gyda'r wybodaeth sydd ganddynt am y disgyblion. Mae ganddynt hawl hefyd i ofyn i'r data gael eu diwygio.

## **Fersiynau o'r ffurflen a'r llythyr enghreifftiol sydd ar gael drwy Gyfieithiad**

6.13 Mae copïau o'r ffurflen enghreifftiol yn Atodiad B a'r llythyr enghreifftiol i rieni yn Atodiad C ar gael yn yr ieithoedd canlynol:

Arabeg	Pwnjabeg
Bengaleg	Somalieg
Cantoneeg	Wrddw
Gwjarati	Pwyleg

Mae copïau o'r ffurflen a'r llythyr yn yr ieithoedd hyn ar gael gan:

Naomi John  
Yr Is-adran Cymorth i Ddysgwyr  
Yr Adran Plant, Addysg a Dysgu Gydol Oes  
Llywodraeth Cynulliad Cymru  
Parc Cathays  
Caerdydd  
CF10 3NQ

Ffôn: 029 2082 6212  
e-bost – Naomi.John@wales.gsi.gov.uk

## Adran 7: Y broses ar gyfer casglu a chofnodi data

### **Casglu gwybodaeth am ieithoedd lluosog ac ieithoedd ychwanegol y tu allan i'r broses CYBLD**

7.1 Y cyfan y bydd yn ofynnol ei nodi ar ffurflenni CYBLD fydd yr iaith **gyntaf**.

7.2 Drwy ymgynghori ag ysgolion, efallai y bydd awdurdodau lleol am hyrwyddo'r broses o gasglu data am iaith ar lefel yr ysgol y tu hwnt i'r data am iaith gyntaf. Bydd hyn yn ymestyn yr wybodaeth sydd ar gael yn lleol am ieithoedd lluosog sy'n hysbys i'r disgyblion neu sy'n cael eu defnyddio ganddynt.

7.3 Gall ysgolion ddefnyddio'r broses hon i gofnodi ieithoedd eraill lle bo'n berthnasol, gan gynnwys iaith/ieithoedd Cyntaf Lluosog os yw'r feddalwedd ar gael. Ymhlith mathau eraill o wybodaeth a allai gael eu casglu y mae'r dewis iaith ar gyfer gohebu â'r cartref lle bo gan yr ysgol y cyfleusterau i lunio gohebiaeth mewn nifer o wahanol ieithoedd, ac unrhyw ieithoedd eraill y mae'r disgybl yn eu dysgu y tu allan i'r ysgol (iaith/ieithoedd gwersi) (gweler Atodiad B).

### **Yr iaith Gyntaf ac Ieithoedd Cyntaf Lluosog**

7.4. Dylai iaith gyntaf gael ei chofnodi lle bo plentyn wedi dysgu'r iaith yn blentyn bach a lle bydd o bosibl yn parhau i gael ei drwytho ynddi yn y cartref neu yn y gymuned. Gall fod yn 'famiaith' iddo ond nid o reidrwydd ym mhob achos.

7.5 Os cafodd plentyn ei drwytho mewn rhagor nag un iaith (a allai gynnwys Cymraeg a/neu Saesneg) yn ystod y blynyddoedd cynnar, dylai iaith heblaw am y Gymraeg a/neu Saesneg gael ei chofnodi fel yr iaith gyntaf, beth bynnag y bo hyfedredd y plentyn yn y Gymraeg a/neu Saesneg. O dan amgylchiadau o'r fath, gallai Cymraeg a/neu Saesneg, neu iaith arall os yw hynny'n berthnasol, gael ei chofnodi fel iaith Gyntaf Lluosog (gweler isod a hefyd Atodiad B) ar ffurflen casglu data'r ysgol os yw meddalwedd yr ysgol yn caniatáu hynny. O dan amgylchiadau o'r fath dim ond yr iaith 'gyntaf' fydd yn cael ei chynnwys wrth gasglu data pellach drwy CYBLD.

Mae plentyn yn dod o deulu lle mae'r fam yn Eidales a'r tad yn Sais. Mae'r fam yn siarad Eidaleg â'r plentyn ac mae'r tad yn siarad Saesneg â'r plentyn. Mae'r plentyn yn mynychu ysgol cyfrwng Cymraeg ac yn siarad â'i frodyr a'i chwiorydd yn Gymraeg felly mae'r plentyn yn rhugl mewn tair iaith. Y tad oedd yn darparu'r gofal sylfaenol pan oedd y plentyn yn fach.

**Yr iaith gyntaf ar gyfer y plentyn hwn fyddai Cymraeg a/neu Saesneg.  
Iaith Gyntaf Luosog y plentyn hwn fyddai Eidaleg.**

## **Trosglwyddo data am iaith ar ôl ei chasglu y tro cyntaf**

7.6 Bwriedir i'r data hyn gael eu trosglwyddo ar gyfer disgyblion sydd eisoes ar y gofrestr yn rhan o'r gweithdrefnau arferol ar gyfer Ffeiliau Trosglwyddo Cyffredin.

## **Y Feddalwedd**

7.7 Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gweithio gyda chyflenwyr y feddalwedd er mwyn sicrhau bod eu systemau yn bodloni gofynion y canllawiau. Nid yw pob ysgol yng Nghymru yn defnyddio'r un systemau gwybodaeth reoli fodd bynnag felly mae'n bosibl y bydd rhywfaint o amrywiaeth wrth amseru'r broses o ddiweddarau MIS.

7.8 Os digwydd y bydd gan ysgolion ddata am iaith disgyblion na fydd modd iddynt eu cofnodi ar eu system MIS yn ystod y cyfnod rhagbaratoadol, dylai'r data gael eu cofnodi a'u cadw'n ddiogel er mwyn eu mewnbynnu pan fydd y feddalwedd yn caniatáu.

7.9 Mewn rhai ysgolion, yr un iaith gyntaf fydd i'r rhan fwyaf o'r disgyblion. Os felly, bwriedir ei gwneud hi'n bosibl i'r feddalwedd allu lleihau'r baich gweinyddol, er enghraifft drwy gofnodi iaith gyntaf y mwyafrif ar y cyd â'i gilydd. Golyga hyn mai dim ond yr ieithoedd cyntaf eraill y bydd angen eu cofnodi â llaw.



## Atodiad A

### Rhestr safonol o gategoriâu iaith a chanllawiau

Mae'r tabl canlynol yn cynnwys y categorïau iaith safonol, ynghyd â'r prif godau a'r is-godau os yw hynny'n berthnasol. Gallwch gael mwy o wybodaeth yn y canllawiau.

Prif god	Is-god	Disgrifiad
ABA		Cymraeg a/neu Saesneg
ACL		Acholi
ADA		Adangme
AFA		Afar-Saho
AFK		Affricaneg
AKA		Akan/Twi-Fante
AKA	AKAF	Akan (Fante)
AKA	AKAT	Akan (Twi/Asante)
ALB		Albaneg/Shqip
ALU		Alur
AMR		Amhareg
ARA		Arabeg
ARA	ARAA	Arabeg (Arall)
ARA	ARAG	Arabeg (Algeria)
ARA	ARAI	Arabeg (Irac)
ARA	ARAM	Arabeg (Moroco)
ARA	ARAS	Arabeg (Y Swdan)
ARA	ARAY	Arabeg (Yemen)
ARM		Armeneg
ASM		Asameg
ASR		Asyrieg/Arameg
AYB		Anyi-Baule
AYM		Aymara
AZE		Aserieg

Prif god	Is-god	Disgrifiad
BAI		Bamileceg (Pob un)
BAL		Balochieg
BEJ		Beja/Bedawieg
BEL		Belarwsieg
BEM		Bemba
BHO		Bhojpuri
BIK		Bikol
BLT		Tibeteg Baltaidd
BMA		Bwrmeg/Myanma
BNG		Bengaleg
BNG	BNGA	Bengaleg (Arall)
BNG	BNGC	Bengaleg (Chittagong/Noakhali)
BNG	BNGS	Bengaleg (Sylheteg)
BSL		Iaith Arwyddion Prydain
BSQ		Basgeg/Euskara
BUL		Bwlgareg
CAM		Cambodieg/Khmer
CAT		Catalaneg
CCE		Saesneg Creoleg Garibiaidd
CCF		Ffrangeg Creoleg Garibiaidd
CGA		Chaga
CGR		Chattisgarhi/Khatahi
CHE		Checheneg

Prif god	Is-god	Disgrifiad
CHI		Tsieineeg
CHI	CHIA	Tsieineeg (Arall)
CHI	CHIC	Tsieineeg (Cantoneeg)
CHI	CHIH	Tsieineeg (Hokkien/Fujianeg)
CHI	CHIK	Tsieineeg (Hakka)
CHI	CHIM	Tsieineeg (Mandarin/ Putonghua)
CKW		Chokwe
CRN		Cernyweg
CTR		Chitralli/Khowar
CWA		Chichewa/Nyanja
CZE		Tsieceg
DAN		Daneg
DGA		Dagaare
DGB		Dagbane
DIN		Dinka/Jieng
DUT		Iseldireg/Fflemeg
DZO		Dzongkha/Bhutanese
EBI		Ebira
EDO		Edo/Bini
EFI		Efik-Ibibio
ESA		Esan/Ishan
EST		Estonieg
EWE		Ewe
EWO		Ewondo
FAN		Fang
FIJ		Ffijieg
FIN		Ffineg
FON		Fon

Prif god	Is-god	Disgrifiad
FRN		Ffrangeeg
FUL		Fula/Fulfulde-Pulaar
GAA		Ga
GAE		Gaeleg/Gwyddeleg
GAL		Gaeleg (Yr Alban)
GEO		Georgeg
GER		Almaeneg
GGO		Gogo/Chigogo
GKY		Kikuyu/Gikuyu
GLG		Galicieg/Galego
GRE		Groeg
GRE	GREA	Groeg (Arall)
GRE	GREC	Groeg (Cyprus)
GRN		Gwaraneg
GUJ		Gwjarati
GUN		Gurenne/Frafra
GUR		Gurma
HAU		Hausa
HDK		Hindko
HEB		Hebraeg
HER		Herero
HGR		Hwngareg
HIN		Hindi
IBA		Iban
IDM		Idoma
IGA		Igala
IGB		Igbo
IJO		Ijo (Pob un)

Casglu a chofnodi data  
am iaith gyntaf disgyblion  
Ionawr 2011  
Cylchlythyr Canllawiau  
Rhif: 001/2011

Prif god	Is-god	Disgrifiad
ILO		Ilokano
ISK		Itsekiri
ISL		Islandeg
ITA		Eidaleg
ITA	ITAA	Eidaleg (Arall)
ITA	ITAN	Eidaleg (Napoli)
ITA	ITAS	Eidaleg (Sicilia)
JAV		Jafaneg
JIN		Jinghpaw/Kachin
JPN		Japaneeg
KAM		Kikamba
KAN		Kannada
KAR		Karen (Pob un)
KAS		Kashmiraidd
KAU		Kanuri
KAZ		Kazakh
KCH		Katchi
KGZ		Kirghiz/Kyrgyz
KHA		Khasi
KHY		Kihaya/Luziba
KIN		Kinyarwanda
KIR		Kirundi
KIS		Kisi (Gorllewin Affrica)
KLN		Kalenjin
KMB		Kimbundu
KME		Kimeru
KNK		Konkani
KNY		Kinyakyusa-Ngonde

Prif god	Is-god	Disgrifiad
KON		Kikongo
KOR		Coreeg
KPE		Kpelle
KRI		Krio
KRU		Kru (Pob un)
KSI		Kisii/Ekegusii (Kenya)
KSU		Kisukuma
KUR		Cwrdeg
KUR	KURA	Cwrdeg (Arall)
KUR	KURM	Cwrdeg (Cwrmanjeg)
KUR	KURS	Cwrdeg (Soraneg)
LAO		Lao
LBA		Luba
LBA	LBAC	Luba (Chiluba/Tshiluba)
LBA	LBAK	Luba (Kiluba)
LGA		Luganda
LGB		Lugbara
LGS		Lugisu/Lumasaba
LIN		Lingala
LIT		Lithwaneg
LNG		Lango (Uganda)
LOZ		Lozi/Silozi
LSO		Lusoga
LTV		Latfieg
LTZ		Lwcsembwrggeg
LUE		Luvale/Luena
LUN		Lunda
LUO		Luo (Kenya/Tanzania)

Prif god	Is-god	Disgrifiad
LUY		Luhya (Pob un)
MAG		Magahi
MAI		Maithili
MAK		Makua
MAN		Manding/Mandekan
MAN	MANA	Manding/Mandekan (Arall)
MAN	MANB	Manding (Bambara)
MAN	MANJ	Manding (Dyula/Jula)
MAO		Maori
MAR		Marathi
MAS		Maasai
MDV		Maldivian/Dhivehi
MEN		Mende
MKD		Macedoneg
MLG		Malagasy
MLM		Malayalam
MLT		Maltaeg
MLY		Malayeg/Indonesieg
MLY	MLYA	Malayeg (Arall)
MLY	MLYI	Indonesieg/Indonesieg Bahasa
MNA		Magindanao-Maranao
MNG		Mongolian (Khalkha)
MNX		Gaeleg Ynys Manaw
MOR		Moore/Mossi
MSC		Creoleg Mawritiws/Seychelles
MUN		Munda (Pob un)
MYA		Maya (Pob un)
NAH		Nahuatl/Mexicano
NAM		Nama/Damara

Prif god	Is-god	Disgrifiad
NBN		Nwbiaeg (Pob un)
NDB		Ndebele
NDB	NDBS	Ndebele (De Affrica)
NDB	NDBZ	Ndebele (Zimbabwe)
NEP		Nepali
NOR		Norwyeg
NUE		Nuer/Naadh
NUP		Nupe
NWA		Newari
NZM		Nzema
OAM		Ambo/Oshiwambo
OAM	OAMK	Ambo (Kwanyama)
OAM	OAMN	Ambo (Ndonga)
OGN		Ogoni (Pob un)
ORI		Oriya
ORM		Oromo
OTL		Iaith arall
PAG		Pangasineg
PAM		Pampanganeg
PAT		Pashto/Pakhto
PHA		Pahari/Himachali (India)
PHR		Pahari (Pacistan)
PNJ		Panjabeg
PNJ	PNJA	Panjabeg (Arall)
PNJ	PNJG	Panjabeg (Gurmukhi)
PNJ	PNJM	Panjabeg (Mirpuri)
PNJ	PNJP	Panjabeg (Pothwari)
POL		Pwyleg
POR		Portiwgaleg

Casglu a chofnodi data  
am iaith gyntaf disgyblion  
Ionawr 2011  
Cylchlythyr Canllawiau  
Rhif: 001/2011

Prif god	Is-god	Disgrifiad
POR	PORA	Portiwgaleg (Arall)
POR	PORB	Portiwgaleg (Brasil)
PRS		Persieg/Ffarsi
PRS	PRSA	Persieg/Ffarsi (Arall)
PRS	PRSD	Persieg (Dariaidd)
PRS	PRST	Persieg (Tajikiaidd)
QUE		Quechua
RAJ		Rajasthaneg/Marwareg
RME		Romani/Romanes Saesneg
RMI		Romani (Rhyngwladol)
RMN		Rwmaneg
RMN	RMNM	Rwmaneg (Moldofa)
RMN	RMNR	Rwmaneg (Rwmania)
RMS		Romansch
RNY		Runyakitara
RNY	RNYN	Runyankore-Ruchiga
RNY	RNYO	Runyoro-Rutooro
RUS		Rwsieg
SAM		Samoeg
SCB		Serbieg/Croateg/Bosnieg
SCB	SCBB	Bosnieg
SCB	SCBC	Croateg
SCB	SCBS	Serbieg
SCO		Scoteg
SHL		Shilluk/Cholo
SHO		Shona
SID		Sidamo
SIO		Iaith Arwyddion (Arall)
SLO		Slofaceg

Prif god	Is-god	Disgrifiad
SLV		Slofenieg
SND		Sindhi
SNG		Sango
SNH		Sinhala
SOM		Somalieg
SPA		Sbaeneg
SRD		Sardinieg
SRK		Siraiki
SSO		Sotho/Sesotho
SSO	SSOO	Sotho/Sesotho (De)
SSO	SSOT	Sotho/Sesotho (Gogledd)
SSW		Swazi/Siswati
SUN		Swndange (Indonesia)
SWA		Swahili/Kiswahili
SWA	SWAA	Swahili (Arall)
SWA	SWAC	Swahili Comoriaidd
SWA	SWAK	Swahili (Kingwana)
SWA	SWAM	Swahili (Brava/Mwiini)
SWA	SWAT	Swahili (Bajuni/Tikuu)
SWE		Swedeg
TAM		Tamil
TEL		Telugu
TEM		Temne
TES		Teso/Ateso
TGE		Tigre
TGL		Tagalog/Ffilipineg
TGL	TGLF	Ffilipineg
TGL	TGLG	Tagalog
TGR		Tigrinya

Casglu a chofnodi data  
am iaith gyntaf disgyblion

Ionawr 2011

Cylchlythyr Canllawiau

Rhif: 001/2011

Prif god	Is-god	Disgrifiad
THA		Thai
TIB		Tibeteg
TIV		Tiv
TMZ		Berber/Tamazight
TMZ	TMZA	Berber/Tamazight (Arall)
TMZ	TMZK	Berber/Tamazight (Kabyle)
TMZ	TMZT	Berber (Tamashek)
TNG		Tonga/Chitonga (Zambia)
TON		Tongan (Oceania)
TPI		Tok Pisin
TRI		Gwyddeleg Teithwyr/Shelta
TSO		Tsonga
TUK		Twrcmeneg
TUL		Tulu
TUM		Tumbuka
TUR		Tyrceg
UKR		Wcranieg
UMB		Umbundu
URD		Wrdw
URH		Urhobo-Isoko
UYG		Uyghur

Prif god	Is-god	Disgrifiad
UZB		Uzbek
VEN		Venda
VIE		Fietnameg
VSY		Visayan/Bisaya
VSY	VSYA	Visayan/Bisaya (Arall)
VSY	VSYH	Hiligaynon
VSY	VSYS	Cebuano/Sugbuanon
VSY	VSYW	Waray/Binisaya
WAP		Wa-Paraok (De-ddwyrain Asia)
WCP		Portiwgaleg Creoleg Gorllewin Affrica
WOL		Wolof
WPE		Bratiaith Saesneg Gorllewin Affrica
XHO		Xhosa
YAO		Yao/Chiyao (Dwyrain Affrica)
YDI		Yiddish
YOR		Yoruba
ZND		Zande
ZUL		Zulu
ZZX		Gwrthodwyd
ZZZ		Dosbarth heb ei benderfynu

## Canllawiau: Defnyddio'r Rhestr Safonol o Gategoriâu Iaith

### 1. Y prif godau a'r is-setiau

1.1 Bwriedir i'r rhestr safonol o ieithoedd roi cyfle i ysgolion gofnodi a dychwelyd data am iaith y rhan fwyaf o ddisgyblion ar gofrestr ysgolion yng Nghymru gan osgoi defnyddio, lle bynnag y bo modd, y categori 'Iaith Arall'.

1.2 Mae cod tair llythyren yn perthyn i bob categori iaith. Ceir yn y rhestr ieithoedd godau ar gyfer 'Iaith Arall', 'Iaith Arwyddion Arall' (hynny yw, heblaw am BSL), 'Dosbarthiad heb ei benderfynu' (i'w ddefnyddio lle nad yw'r wybodaeth wedi'i dychwelyd eto) a 'Gwrthodwyd' (lle gwrthodwyd rhoi'r wybodaeth).

1.3 Mewn rhai achosion bydd is-setiau yn perthyn i gategori iaith lle bo rhagor nag un iaith ar wahân yn cael ei chydabod o fewn y prif gategori iaith. Yn yr achosion hynny, bydd cod pedair llythyren yn perthyn i'r iaith o fewn yr is-set a bydd y tair llythyren gyntaf yr un fath yn union â'r llythrennau ar gyfer categori'r brif iaith.

e.e *Panjabeg yw categori'r brif iaith a'r cod yw PNJ.*

*Panjabeg (Mirpuri) yw'r iaith sy'n perthyn i'r is-set a'r cod yw PNJM.*

Defnyddir cromfachau i ddangos yr amrywiad o fewn y categori iaith ac fe'u defnyddir i ddynodi'r rhan fwyaf o'r is-setiau. Mae enw gwlad mewn cromfachau yn dynodi tarddle'r iaith; nid dyma darddwlad y plentyn ym mhob achos fodd bynnag.

Wrth ddefnyddio is-setiau gellir casglu data iaith gyntaf manylach.

1.4 Mae'r rhestr safonol yn cwmpasu ieithoedd y mae niferoedd uchel o bobl yn eu siarad a hefyd ieithoedd y mae niferoedd llai o bobl yn eu siarad. Mae'r rhai olaf wedi'u cynnwys lle bônt o arwyddocâd cymdeithasol arbennig yn eu tarddwlad. Bydd awdurdodau lleol ac ysgolion yn gallu penderfynu pa ieithoedd sy'n berthnasol o fewn eu cymunedau a llunio rhestri diwygiedig i'w rhoi i rieni/gofalwyr a disgyblion ar gyfer y broses o gasglu data.

## 2. Defnyddio'r codau

2.1 Mae cod yr iaith i'w gofnodi ar gyfer y plentyn yn dibynnu ar y canlynol:-

### (a) A yw iaith y plentyn yn hysbys:

Yn yr achos hwn, dylid nodi iaith gywir y plentyn o blith y rhestr safonol a dylid cofnodi'r cod fel y bo'n briodol.

Mewn rhai achosion prin, lle nad yw'r iaith gywir yn ymddangos yn y rhestr newydd o gategoriâu, gellir cofnodi'r cod 'OTL' (Iaith Arall/Other Language);

### (b) Ni wyddys eto beth yw iaith y plentyn:

Yn yr achos hwn, dylid cofnodi 'ZZZ' ('Dosbarthiad heb ei benderfynu' /'Classification Pending') yn hytrach na 'OTL' ('Iaith Arall'/'Other Language') er mwyn nodi na wyddys eto beth yw iaith y plentyn. Dylid gofyn am yr wybodaeth hon a diweddarau'r cofnod pan fo'n gyfleus.

### (c) Mae'r wybodaeth yn cael ei gwrthod:

Yn yr achos hwn, dylid cofnodi 'ZZX' ('Gwrthodwyd'/'Refused') yn hytrach na 'OTL' ('Iaith Arall'/'Other Language') er mwyn nodi y gwrthodwyd rhoi'r wybodaeth hon pan ofynnwyd amdani.

2.2 Dylid nodi tarddiad y cod am yr wybodaeth am iaith er mwyn adlewyrchu a gafodd yr wybodaeth ei rhoi gan y disgybl, rhiant, yr ysgol, yr ysgol flaenorol neu ffynhonnell arall.



## Atodiad B

### **Profforma enghrefftiol: Casglu data am iaith gyntaf disgyblion drwy CYBLD**

Caiff y data y gofynnir amdanynt eu storio ar system gwybodaeth reoli'r ysgol a chânt eu defnyddio at y dibenion a nodir yn ein Hysbysiad Preifatrwydd. Gwneir pob ymdrech i sicrhau cywirdeb a diogelwch y data personol a gedwir gan yr ysgol. Mae gan unigolion hawliau penodol i weld gwybodaeth bersonol sy'n cael ei chadw amdanynt hwy eu hunain. Fe'u hamlinellir yn ein taflen sef: 'Yr Hyn y Mae'r Ysgol, yr Awdurdod Lleol a Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud â'r Wybodaeth y maent yn ei Chadw am Ddisgyblion'. Gellir cysylltu â [xxx] i ofyn am gopiâu o'r ddogfen neu gallwch fynd i'n gwefan [xxx].

**Ein hamcan yw canfod pa ieithoedd sy'n cael eu siarad gan ddisgyblion yn ein hysgol.**

- 1. Ai Cymraeg a/neu Saesneg oedd yr iaith gyntaf y dysgoch chi ei siarad yn blentyn bach?  
(Mae'n bosib mai hon fydd yr iaith rydych chi'n ei siarad o hyd yn y cartref neu yn y gymuned.)**

Ticiwch un o'r canlynol:

IE:

NA:  (Os 'na' yw eich ateb, ewch i gwestiwn 2)

- 2. Os nad y Gymraeg a/neu'r Saesneg oedd yr iaith gyntaf y dysgoch chi ei siarad yn blentyn bach, beth oedd yr iaith gyntaf honno? (Gyda chymorth staff yr awdurdod lleol, mae'n bosib y gwêl ysgolion mai defnyddiol ar yr adeg hon fydd cynnwys rhestr wedi'i chwtdogi yn adlewyrchu'r ieithoedd a siaredir o fewn yr awdurdod.)**

**Ateb y disgybl:** (Iaith Gyntaf)

**Os nad ydych chi am roi data am yr iaith gyntaf, ticiwch y blwch hwn:**

Os yw meddalwedd MIS yr ysgol yn caniatáu i ysgolion gofnodi data am ieithoedd ychwanegol, mae'n bosibl y bydd ysgolion am gasglu'r wybodaeth ychwanegol hon at ddibenion lleol. Lle digwydd hyn, mae'n bosib y gwêl ysgolion mai priodol fyddai cynnwys cais am yr wybodaeth hon ar y ffurflen ar yr adeg hon. Mae'r amlinelliad canlynol yn cynnig enghreifftiau er mwyn casglu ynghyd y data hyn.

**3. Ydych chi'n siarad unrhyw ieithoedd eraill yn y cartref neu yn y gymuned?**

**Ateb y disgybl:** (Iaith Gyntaf Luosog /Ieithoedd Gyntaf Lluosog)

**4. Ydych chi'n dysgu ieithoedd eraill y tu allan i'r ysgol?**

**Ateb y disgybl:** (Iaith gwersi)

**5. Pa iaith sy'n well ei defnyddio wrth ysgrifennu at eich rhieni/gofalwyr?**

**Dewiswch un o'r canlynol:**

**Ateb y disgybl:** (Iaith gohebu)

Saesneg:

Cymraeg:

Yn ddwyieithog yn Gymraeg ac yn Saesneg:

Arall (nodwch):

**A fydddech cystal â nodi pwy roddodd yr wybodaeth uchod drwy roi tic yn un o'r blychau canlynol:**

**Rhoddwyd yr wybodaeth uchod gan y canlynol:**

**Rhiant**  **Gofalwr**  **Disgybl**

**Nodyn ar gyfer ysgolion: Yr atebion i Gwestiwn 1 yn unig a gaiff eu defnyddio yn rhan o broses CYBLD.**

**Mae cwestiynau eraill ar gyfer prosesau casglu data ysgolion fel y bo'n briodol (gweler Atodiad C)**

## Atodiad C

### **Llythyr enghreifftiol gan ysgolion at rieni/gofalwyr**

Annwyl Riant/Gofalwr

#### **Casglu a Chofnodi Data am Iaith Gyntaf Disgyblion**

##### **Pam casglu'r wybodaeth hon?**

Mae angen i ysgolion gasglu gwybodaeth am **iaith Gyntaf** eu disgyblion. Diben hyn yw sicrhau bod ysgolion, Awdurdodau Lleol a Llywodraeth Cynulliad Cymru yn deall yn well pa ieithoedd sy'n cael eu siarad mewn cymunedau ledled Cymru. Bydd hyn yn ein helpu ni i gynllunio gwasanaethau er mwyn rhoi cymorth i'r disgyblion hynny sydd ei angen fel y gallant gael pob cyfle posibl i wneud cystal ag y gallant yn yr ysgol.

##### **Beth mae 'Iaith Gyntaf' yn ei olygu?**

**Yr 'Iaith Gyntaf' yw'r iaith a ddysgodd eich plentyn pan oedd yn blentyn ifanc.** Mae'n bosib y bydd yn defnyddio'r iaith hon gartref neu yn y gymuned o hyd, hyd yn oed os yw'n defnyddio iaith arall neu ieithoedd eraill (fel y Gymraeg a/neu'r Saesneg) yn amlach.

Amgaeaf ffurflen felly sy'n gofyn i chi am wybodaeth am **Iaith Gyntaf** eich plentyn.

##### **Pwy ddylai lenwi'r ffurflen?**

Os yw eich plentyn yn yr ysgol gynradd, dylech lenwi'r ffurflen ar ei ran.

Dywed y Comisiynydd Gwybodaeth y gall disgyblion rhwng 12 a 15 oed benderfynu drostynt eu hunain beth yw eu hiaith gyntaf. Argymhellwn, fodd bynnag, mai'r ffordd orau fyddai i benderfyniadau gael eu gwneud gyda chefnogaeth a gwybodaeth eu rhieni mewn cyd-destun teuluol.

Dywed y Comisiynydd Gwybodaeth y dylai disgyblion sy'n 16 oed a throsodd wneud eu penderfyniadau eu hunain.

A fyddech cystal â dychwelyd y ffurflen mewn amlen i swyddfa'r ysgol (neu drwy e-bost os cafodd ei hanfon atoch drwy e-bost) erbyn (nodwch y dyddiad). Cysylltwch â swyddfa'r ysgol os hoffech gael help i lenwi'r ffurflen.

### **Beth fydd yn digwydd i'r wybodaeth?**

Bydd yr wybodaeth a gaiff ei chasglu yn cael ei chadw'n gyfrinachol ac ni chaiff ei chyhoeddi mewn unrhyw fodd a fydd yn golygu y gellir adnabod plant unigol. Ni chaiff yr wybodaeth ei defnyddio at unrhyw ddibenion ond y rhai a ddisgrifiwyd yn gynharach yn y llythyr hwn. O bryd i'w gilydd, caiff yr wybodaeth ei rhoi i'r awdurdod addysg lleol a Llywodraeth Cynulliad Cymru yn rhan o ystadegau lleol a chenedlaethol.

### **Beth fydd yn digwydd pan fydd fy mhlentyn yn symud ysgol?**

Os bydd eich plentyn yn symud i ysgol arall, caiff yr wybodaeth am iaith gyntaf eich plentyn ei throsglwyddo i'r ysgol newydd fel na fydd angen gofyn i chi eto am yr wybodaeth.

### **Alla i weld yr wybodaeth sy'n cael ei chadw am iaith Gyntaf fy mhlentyn er mwyn sicrhau ei bod yn gywir?**

Gallwch ofyn am gael gweld yr wybodaeth am iaith Gyntaf eich plentyn ar unrhyw adeg er mwyn sicrhau ei bod yn gywir. Gallwch hefyd newid neu ddileu'r wybodaeth os mynnwch.

Diolch yn fawr iawn am eich help.

Yn gywir

(enw'r Pennaeth)

### **Gellir cael copïau pellach o'r ddogfen hon oddi wrth:**

Naomi John  
Yr Is-adran Cymorth i Ddysgwyr  
Yr Adran Plant, Addysg a Dysgu Gydol Oes  
Llywodraeth Cynulliad Cymru  
Parc Cathays  
Caerdydd  
CF10 3NQ

Rhif ffôn: 029 2082 6212

e-bost: [Naomi.john@wales.gsi.gov.uk](mailto:Naomi.john@wales.gsi.gov.uk)